

PWYLLGOR DEDDF YSTÂD YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 14 Mawrth, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J.E. Charles, G.A. Cox, R. Crowley and S.T. Wiliam.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd)

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2022 fel cofnod cywir, yn amodol ar y Cynghorydd J.C. Charles yn dymuno egluro'r cyd-destun yr oedd wedi gwneud rhai sylwadau ynddo yn ystod y drafodaeth am Eitem 8 ar yr Agenda – 'Tir yn Glebe Fields, Sili – Cais Ymholiad Gwyrdd Tref a Phentref'.

Dywedodd y Cynghorydd Charles nad oedd wedi bod yn glir iddi pam y byddai angen penodi bargyfreithiwr wrth fwrw ymlaen â'r mater, ac roedd wedi deall ei bod yn awgrymu y byddai bargyfreithiwr yn cael ei benodi pe bai'r Ymddiriedolwyr yn anghytuno ag argymhellion Swyddogion. Roedd y Swyddog Monitro wedi cysylltu â'r Cynghorydd Charles wedi hynny ac egluro nad oedd hyn yn wir. Gorffennodd y Cynghorydd trwy ddweud bod y cofnodion yn nodi'r mater yn glir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. TIR YN CASSY HILL, TREGATWG (PW) –

PENDERFYNWYD -

(1) DWEUD wrth y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Eiddo i wahodd cynigion seliedig gan y parti gwreiddiol a pherchnogion cartrefi ar hyd Church Terrace i brynu'r tir.

(2) RHOI awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Gweithredol ar gyfer Eiddo i dderbyn y cynnig uchaf a chytuno ar Benaethiaid Telerau ar gyfer gwerthu tir (gan gynnwys

cadw'r hawl tramwy ar gyfer mynediad i'r eiddo ar Church Terrace) a chytuno ar Benawdau Telerau ar gyfer gwerthu'r tir (i gynnwys eiddo ar Church Terrace) a dweud wrth Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheolwr Gweithredol y Gwasanaethau Cyfreithiol i baratoi a chwblhau'r dogfennau cyfreithiol angenrheidiol er mwyn gwaredu'r tir i'r parti llwyddiannus.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

- (1) Er mwyn i'r holl bartïon yr effeithir arnynt, gan gynnwys y parti gwreiddiol, gael cyfle i gyflwyno cynnig seliedig i brynu'r tir.
- (2) Er mwyn gallu bwrw ymlaen â gwerthiant ar ôl i'r broses cynigion seliedig ddod i ben.